

Defnyddio'r Fframwaith Rhyngweithredadwyedd Delweddau Rhyngwladol (IIIF) ar gyfer darparu copïau mynediad archifol o system rheoli casgliadau a diogelu digidol: Yn ymarferol

James Grimster: Rheolwr Gyfarwyddwr, [Orangeleaf Systems Ltd](#)

Mae CollectionsBase, ein storfa metadata ar gyfer Amgueddfeydd, Archifdai a Chofnodion Amgylchedd Hanesyddol, yn 10 mlwydd oed eleni. Hon yw un o'r storfeydd mwyaf o fetadata o ffynonellau cymysg yn y DU, a dechreuodd fel storfa ranbarthol ar gyfer amgueddfeydd, archifdai a CAH y Black Country. Mae'r holl wasanaethau amrywiol yn defnyddio'r gwahanol fathau o feddalwedd catalogio masnachol sydd ar gael, neu'n tueddu i ddilyn eu llwybr eu hunain a chreu storfeydd data pwrpasol. Yn rhan gyntaf fy nghyflwyniad byddaf yn ymhelaethu ar y drefn yr ydym wedi'i mabwysiadu, gan ddefnyddio'r gwahanol Safonau Treftadaeth Ddigidol, i wneud i hyn weithio yn ymarferol.

Yn fwy diweddar, mae archifdai wedi bod yn gofyn i ni ddarparu cyflwyniad cyson o ddeunyddiau wedi'u digido ar gyfer y defnyddiwr terfynol - yn ddogfennau unigol a chyfrolau amlran. Yng ngweddill fy nghyflwyniad byddaf yn edrych ar dair astudiaeth achos, ac ar agweddau ymarferol ar ddefnyddio'r Fframwaith Rhyngweithredadwyedd Delweddau (iiif.io) mewn amgylcheddau cynhyrchu.

Astudiaeth achos un: Archifdy Sir Ddinbych

Bydd y cyflwyniad yn edrych ar y gwaith y bu'n rhaid i ni ei wneud i greu manifestau Presentation API ar gyfer y Dyfarniadau Cau sy'n cael eu geogodio a'u cyflwyno gyda'r Mapiau Degwm Cynefin. Caiff y Copïau Mynediad Archifol ar gyfer y dyfarniadau eu darparu gan Gyngor Sir Ddinbych, a byddaf yn disgrifio'n fyr yr heriau sy'n codi yn sgil y drefn hon.



Astudiaeth achos dau: Archifdy Suffolk

Byddaf yn ymhelaethu ar agweddau technegol rhyngwynebu chwiliad catalog defnyddiwr-ganolog lle mae'r Copïau Mynediad Archifol ar Preservica Cloud Edition, ac ar yr angen i ddefnyddio storio dros dro amserlenedig gydag API y Fenter Archifau Agored wrth greu'r delweddau a ddefnyddir mewn ymatebion i chwiliadau.



Astudiaeth achos tri: Archifau'r Senedd

Byddaf yn cloi drwy drafod ein datblygiadau presennol ar gyfer y Senedd, gan asesu'r angen am gydbwysu llwyth a storio dros dro ar gyfer Gweinyddion Delweddau IIF ac API. Byddaf hefyd yn trafod ein gwaith yn y dyfodol: defnyddio [Transkribus](#) fel rhan o'r strwythur maniffest a grëir adeg amlyncu i ddarparu metadata ar gyfer IIF Search.

